# Adroddiadau Deilliannau Dysgwyr ar gyfer dysgu seiliedig ar waith

Deall y data

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cyflwyniad

1 2011 ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi dangosyddion perfformiad blynyddol ar gyfer addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith. Mae'r canllawiau hyn yn esbonio pa wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn y dangosyddion, sut y maent yn cael eu cyfrifo a sut i ddehongli'n hadroddiadau.

2 Mae'r adroddiadau'n rhan o'r Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd ar gyfer dysgu ôl-16; mae rhagor o wybodaeth yn www.wales.gov.uk/quality.

## Beth yw Adroddiadau Deilliannau Dysgwyr?

3 Diben Adroddiadau Deilliannau Dysgwyr yw rhoi golwg gyffredinol ar gyfraddau llwyddo ymhlith dysgwyr, gan ddangos y cyfraddau hynny ar gyfer pob darparwr dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru. Maent yn rhoi 'ciplun' o'r ystadegau ar gyfer blwyddyn benodol, ond maent hefyd yn rhoi gwybodaeth am dueddiadau sy'n dangos sut mae deilliannau dysgwyr wedi newid dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r holl ystadegau yn seiliedig ar wybodaeth sy'n cael ei rhoi i ni gan ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith.

4 Mae'r Adroddiadau Deilliannau Dysgu yn ymdrin â blwyddyn academaidd, sy'n dechrau ar 1 Awst ac yn dod i ben ar 31 Gorffennaf. Mae ychydig fisoedd yn mynd heibio cyn i'r adroddiadau gael eu cyhoeddi, a hynny er mwyn rhoi amser i ddarparwyr dysgu gofnodi a gwirio'u data, ac er mwyn i'r data hynny gael eu dadansoddi. Fel rheol, felly, mae'r adroddiadau'n cael eu cyhoeddi yn ystod y gwanwyn sy'n dilyn y flwyddyn academaidd y maent yn ymwneud â hi.

## Darllen yr adroddiadau

5 Mae gennym ffyrdd gwahanol o fesur dysgu seiliedig ar waith ar gyfer pob un o'r prif raglenni yr ydym yn eu hariannu. Dyma sut yr ydym yn mynd ati i fesur:

| | |
|---|---|
| **Prentisiaethau** | **Llwyddiant o ran y fframwaith:** pa gyfran o'r dysgwyr sy'n ennill y fframwaith llawn o gymwysterau y mae eu hangen er mwyn cwblhau Prentisiaeth? |
| **Adeiladu Sgiliau** | **Dilyniant dysgwyr:** pa gyfran o'r dysgwyr aeth ymlaen i fyd cyflogaeth neu dysgu bellach at lefel uwch, ar ôl gadael y rhaglen? |
| **Rhaglenni eraill** (gan gynnwys Dysgu Hyblyg a Dysgu Cyn Prentisiaeth) | **Llwyddiant o ran gweithgareddau dysgu:** gan edrych ar yr holl weithgareddau dysgu y dechreuwyd arnynt, faint ohonynt a gafodd eu cwblhau'n llwyddiannus a'u cyflawni? |

6 Nid yw pob darparwr dysgu seiliedig ar waith yn cynnig pob un o'r rhaglenni hyn.

## Siartiau tueddiadau

7 Mae rhan gyntaf yr adroddiad yn dangos tueddiadau o ran perfformiad ar gyfer y tair blynedd diwethaf.




Mae'r siart hwn yn dangos y cyfraddau llwyddo cyffredinol ar gyfer y fframwaith Prentisiaeth.

Mae'r bariau llwyd yn dangos y gyfradd gyfartalog genedlaethol ar gyfer pob Prentisiaeth ar draws yr holl ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru.

8 Rydym yn defnyddio **'goleuadau traffig'** ar gyfer y flwyddyn fwyaf diweddar er mwyn dangos a yw'r cyfraddau llwyddo yn ardderchog, yn dda, yn ddigonol neu'n anfoddhaol o'u cymharu â'r targedau yr ydym yn eu pennu. Dyma'r raddfa a ddefnyddir:

| | |
|---|---|
| **Ardderchog** | 85% neu'n uwch |
| **Da** | 75 - 84% |
| **Digonol** | 65 - 74% |
| **Anfoddhaol** | Dan 65% |




Mae'r siart hwn yn dangos 'dilyniant positif' ar ôl y rhaglen Adeiladu Sgiliau – hynny yw, canran y dysgwyr a aeth ymlaen i fyd cyflogaeth neu dysgu bellach at lefel uwch ar ôl y rhaglen.

Yn 2010/11 cafodd y ffordd y mae 'dilyniant positif' o'r rhaglen Adeiladu Sgiliau yn cael ei fesur ei newid ac mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar gyfraddau dilyniant positif ar gyfer y flwyddyn hon. Felly, ni fyddai'n addas cymharu wrth edrych ar dueddiadau mewn perfformiad dros y tair blynedd ddiwethaf.

9 Dyma'r raddfa 'goleuadau traffig' ar gyfer dilyniant ar ôl y rhaglen Adeiladu Sgiliau:

| | Pobl ifanc | Oedolion |
|---|---|---|
| **Ardderchog** | 70% neu'n uwch | 65% neu'n uwch |
| **Da** | 55 - 69% | 50 - 64% |
| **Digonol** | 45 - 54% | 40 - 49% |
| **Anfoddhaol** | Dan 45% | Dan 40% |

## Dadansoddiadau o'r cyfraddau llwyddo

10 Mae ail adran yr Adroddiad Deilliannau Dysgu yn dangos gwybodaeth fanylach am ddeilliannau dysgwyr y darparwr ar gyfer pob un o'r rhaglenni y mae'n eu cynnig. Mae'r rhain yn cael eu cyfrifo yn yr un ffordd â'r cyfraddau llwyddo cyffredinol a'r cyfraddau dilyniant a ddangosir yn y siartiau ar ddechrau'r Adroddiad Deilliannau Dysgu. Mae'r tabl hefyd yn dangos nifer y dysgwyr a adawodd pob rhaglen yn ystod y flwyddyn honno. Os oes llai na 10 wedi gadael, rydym wedi dileu'r ffigurau a rhoi seren yn eu lle (*) yn hytrach na chyfrifo cyfraddau perfformio ar sail nifer bach iawn o ddysgwyr a adawodd y rhaglenni.

11 Yn y golofn olaf, rydym yn dangos y cymaryddion cenedlaethol (y cyfartaledd ar gyfer yr holl ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru sy'n cynnig y

rhaglen honno). Mae'r rhain yn rhoi gwybodaeth gefndir er mwyn i chi fedru gweld sut mae perfformiad y darparwr yn cymharu â gweddill Cymru.

## Grwpio darparwyr

12 Aethom ati'n ddiweddar i wahodd tendrau am gontractau newydd ar gyfer dysgu seiliedig ar waith, ac yn sgil y broses honno, mae gan lai o ddarparwyr gontractau uniongyrchol gyda Llywodraeth Cymru. Mae rhai o'r darparwyr a oedd â chontract yn 2010/11 yn rhan o bartneriaeth fwy erbyn hyn, ac mae eraill bellach yn isgontractwyr. Yn yr achosion hyn, maent i'w gweld yn eu grwpiau newydd ar y dudalen Adroddiadau Deilliannau Dysgu ar y we. Drwy glicio ar y prif ddarparwr yn y golofn ar y chwith, rydych yn cael eich tywys i dudalen arall lle gallwch weld yr Adroddiad Deilliannau Dysgu ar gyfer pob darparwr sy'n rhan o'r bartneriaeth.

## Rhagor o wybodaeth

13 Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau am yr Adroddiadau Deilliannau Dysgu, anfonwch e-bost atom yn post16quality@cymru.gsi.gov.uk.